**Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb eu Cadarnhau**
**Cyfarfod y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol**
**14 Hydref 2025 am 10:00, yn 6.5 CQ2 a thrwy Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) |
| Huw David | (HD) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Llywodraeth Leol) |
| Clare Jenkins | (CJ) | Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd y Bwrdd |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Rachel Attwood | (RA) | Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Michelle Battlemuch | (MB) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Lucy Day | (LD) | Rheolwr Busnes |
| Katrina Febry | (KFe) | Archwilio Cymru |
| Karen Fitzgibbon | (KF) | Pennaeth Gweithrediadau Pobl a Datblygu Sefydliadol (ar gyfer eitem 3) |
| Danielle Gething | (DG) | Pennaeth Rheoli Risg (ar gyfer eitemau 4 a 5) |
| Liz Heath | (LH) | Cynrychiolydd ochr staff |
| Sian Jones | (SJ) | Rheolwr y Gymraeg (ar gyfer eitem 7) |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Rhiannon Windsor | (RW) | Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol (Gweithrediaeth y GIG) |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Pippa Britton | (PB) | Cadeirydd y Bwrdd |
| Tracey Cooper | (TC) | Y Prif Weithredwr |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Ffion Lloyd | (FL) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |
| Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 | | |

| Rhan A | |
|---|---|
| **PODC 1/2025.10.14** | **Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb** |
| Agorodd TR y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod hwn wedi'i gynnal yn electronig ac wyneb yn wyneb yn CQ2.<br><br>**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn sicrhau cywirdeb y cofnodion. Byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod nesaf ar 20 Ionawr 2026.<br><br>**Nodwyd** yr ymddiheuriadau am absenoldeb a dderbyniwyd. | |
| **PODC 1.1/2025.10.14** | **Datganiadau o Fuddiant** |
| Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant. | |
| **PODC 1.2/ 2025.10.14** | **Cofnodion, Log Gweithredu a Materion yn Codi o'r cyfarfod (16 Gorffennaf 2024)** |
| **Cymeradwyodd** y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2025.<br><br>**Cymeradwyodd** y Pwyllgor gau dau gam gweithredu ar y Log Gweithredu. | |
| **Mewn Ffocws / Archwiliad Dwfn** | |
| **PODC 2/ 2025.10.14** | **Strategaeth Pobl** |

Rhoddodd KF archwiliad dwfn o gynllun datblygu a gweithredu'r Strategaeth Pobl wedi'i hadnewyddu. Nodwyd bod y cynllun gweithredu i fod ar gael erbyn diwedd mis Rhagfyr 2025, ac y byddai'n cael ei fapio i'r Cynllun Strategol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP).

Tynnodd KF sylw at bwyntiau allweddol y cynllun:

- Byddai'r cynllun gweithredu yn nodi camau gweithredu tymor byr, tymor canolig a hirdymor, gyda thargedau i'w cyflawni dros 1-3 blynedd yn bwydo i gylchred yr IMTP. Byddai perchnogaeth, amserlenni, a mesurau ar gyfer olrhain cynnydd yn cael eu cytuno a'u hadrodd yn rheolaidd drwy'r Pwyllgorau perthnasol.
- Ymgysylltwyd â chydweithwyr hyd at fis Ebrill 2025. Dilynwyd hyn gan gymeradwyo'r strategaeth gan y Tîm Gweithredol Busnes a'r Bwrdd ym mis Mai, a chyhoeddi ym mis Awst 2025. Nodwyd bod y strategaeth bellach ar gael i'r holl staff, a bod gwaith yn cael ei wneud i ymgysylltu ag arbenigwyr pwnc, undebau llafur a rhwydweithiau amrywiaeth.
- Eglurwyd bod y cynllun yn cwmpasu cyfnod o 10 mlynedd a'i fod wedi'i strwythuro o amgylch pum maes ffocws allweddol:
  - Wedi'i Gynllunio i Gyflawni - cysylltu cynllunio'r gweithlu â blaenoriaethau strategol i alluogi twf a hyblygrwydd.
  - Denu Talent a Recriwtio Cynhwysol - Defnyddio prosesau recriwtio wedi'u diweddaru i wella hygyrchedd a lleihau rhagfarn, a defnyddio cynllunio ar gyfer olyniaeth i feithrin talent amrywiol.
  - Meithrin Sgiliau Parod ar gyfer y Dyfodol - Hyrwyddo dysgu gydol oes, y teuluoedd swyddi datblygu, a phartneriaethau cryfach â darparwyr addysg.

UNCONFIRMED

- Arwain gyda Thosturi - Sicrhau bod arweinyddiaeth dosturiol wedi'i hymgorffori yn niwylliant y sefydliad, a buddsoddi mewn datblygu arweinwyr a rheoli perfformiad.
- Profiad Staff Eithriadol - Blaenoriaethu llesiant, hyblygrwydd a thwf gweithwyr, a sicrhau yr eir i'r afael â risgiau o ran gweithio ystwyth.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Pwysigrwydd cysylltu blaenoriaethau strategol â'r angen am ddata cadarn i adnabod bylchau yn y gweithlu. Sicrhaodd KF ac RA y Pwyllgor fod cynllunio gweithredu yn cael ei yrru gan ddata, a bod adolygiad o gynlluniau'r gweithlu a mapio sgiliau yn parhau.
- Yr angen i ymgysylltu â phartneriaid eraill y GIG, yn enwedig mewn perthynas â datblygu'r gweithlu arbenigol a chlinigol. Nododd KF ac NL gydweithrediad ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a sefydliadau eraill GIG Cymru, a oedd yn cynnwys ymrwymiadau ar y cyd ar lesiant y gweithlu.
- Yr arferion gorau o ran recriwtio cynhwysol, a all gynnwys newidiadau i systemau fel TRAC a mentrau gweithredu cadarnhaol. Disgrifiodd KF waith parhaus i ddadansoddi data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) a'r angen am gefnogaeth arbenigol, gyda ffocws ar welliannau prosesau a chamau cadarnhaol.
- Heriau o ran denu a chadw arbenigwyr gwyddonol, yn enwedig mewn rhanbarthau ar y ffin, a'r angen i ddatblygu partneriaethau â darparwyr academaidd a datblygiad yn y gweithle.
- Yr angen i ystyried yr amgylchedd gwaith ffisegol wrth recriwtio staff ac ym mhrofiad staff, yn enwedig yn achos cydweithwyr niwrowahanol. Cytunodd KF i gynnwys hyn mewn gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Diolchodd TR i KF am ei chyflwyniad.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Pobl.

| **Rheoli Risg** | |
|---|---|
| **PODC 3/ 2025.10.14** | **Cofrestr Risg Strategol (Risg 2)** |

Rhoddodd DG ddiweddariad ar sefyllfa reoli Risg Strategol 2 yn dilyn ei chymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

Nododd DG fod y broses adrodd ar y parodrwydd i dderbyn risg wedi'i chryfhau gyda gwelliannau i'r rheolaethau, sicrwydd ac adrodd ar y parodrwydd i dderbyn risg. Tynnodd DG sylw hefyd at y ffaith bod y parodrwydd i dderbyn risg wedi'i osod ar "parod," a oedd yn dangos bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn agored i arloesedd a derbyn risg uwch o dan yr amgylchiadau cywir.

Nodwyd bod y sgôr ar gyfer Risg Strategol 2 wedi aros ar naw ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mehefin ac Awst 2025, a bod y risg ar hyn o bryd o fewn y trothwy rheoli risg.

Diolchodd KY i DG am y diweddariad, a chanmolodd eglurder a hwylustod y fformat newydd ar gyfer adroddiadau.

UNCONFIRMED

Pwysleisiodd NL fod gwaith sylweddol yn mynd rhagddo, a bod cyflymder y cynnydd yn cael ei adolygu i benderfynu ar yr hyn oedd yn effeithiol a'r hyn sydd angen ei addasu. Nodwyd bod adolygiad pellach wedi'i drefnu gyda'r tîm Gweithredol i'w drafod.

Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i'r Risgiau Strategol ac fe gafodd **sicrwydd** ynghylch rheoli Risgiau Strategol yn y sefydliad, o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

| | |
|---|---|
| **PODC 4/ 2025.10.14** | **Y Gofrestr Risg Gorfforaethol** |

Rhoddodd DG ddiweddariad ar y gofrestr Risg Gorfforaethol fel y'i hadolygwyd gan y Tîm Arweinyddiaeth ar 18 Medi 2025.

Tynnodd DG sylw at y ffaith bod Risgiau Corfforaethol 1533 a 1541 yn cael eu rheoli ar hyn o bryd i lefel sgôr risg gymedrol.

Cododd y Pwyllgor gwestiwn ynghylch y mater recriwtio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) o dan risg 1533 sef a oedd problem yn gysylltiedig â chapasiti. Nododd NL fod y risg hon yn dod o dan gylch gwaith y Cyfarwyddwr Cenedlaethol dros Bolisi ac Iechyd Rhyngwladol, ac argymhellodd y dylid holi'r gyfarwyddiaeth honno i gael rhagor o fanylion. Cytunodd DG i egluro'r dull rheoli ar gyfer y risg hon ac adrodd yn ôl fel y bo'r angen.
**Cam Gweithredu: DG**

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheoli risgiau corfforaethol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

UNCONFIRMED

**Cyflawni Strategaeth**

| | |
|---|---|
| **PODC 5/ 2025.10.14** | **Diweddariad ar Ymrwymiad yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) (Teuluoedd Swyddi)** |

Rhoddodd RA ddiweddariad ar yr ymrwymiad yn yr IMTP ar y Dull Teulu Swyddi. Nododd ei gysylltiad â chynllun gweithredu'r Strategaeth Pobl a'i rôl fel galluogwr ar gyfer pob un o'r pum maes allweddol yn y strategaeth, a oedd yn cynnwys diwylliant a risg strategol. Tynnodd RA sylw at y ffaith bod y dull gweithredu wedi'i gytuno gyda'r Tîm Gweithredol Busnes yn 2024, a bod grŵp llywio'r Teulu Swyddi a sefydlwyd fel rhan o'r gwaith hwnnw i fod i gynnal ei sesiwn gyntaf ym mis Tachwedd 2025.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Rhoi sylwadau cadarnhaol ar y papur ond nododd ddiffyg amserlenni a thargedau mesuradwy, a chododd bryderon hefyd ynghylch gwahanu Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd.
- Eglurodd RA fod atodiad 1 a oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a oedd yn amlinellu fframwaith y teuluoedd swyddi yn enghraifft ymarferol ac nid yn grwpiad sefydlog, ac y byddai adborth yn cael ei ymgorffori wrth edrych tua'r dyfodol. Tynnodd MB sylw hefyd at bwysigrwydd galluogi symudiad o fewn ac ar draws teuluoedd swyddi, gan gyfeirio at waith blaenorol mewn Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio.
- Gofynnwyd a fyddai'r dull yn arwain at newidiadau sylweddol i gyflog a chydnabyddiaeth, neu'n creu rolau a chyfrifoldebau newydd. Ymatebodd RA nad oedd unrhyw newidiadau sylweddol i gyflogau na rolau newydd yn cael eu

rhagweld, a bod y dull yn ymwneud â safoni a thegwch yn hytrach na ffurfioli swyddi newydd. Ychwanegodd NL, er y gellir nodi anomaleddau a mynd i'r afael â hwy drwy brosesau presennol, nad oedd cyllideb bresennol ar gyfer newidiadau cyflog sylweddol, a bod risgiau wedi'u hystyried mewn trafodaethau gan y Weithrediaeth.

- Gofynnwyd am gyfranogiad Undebau Llafur ac a oeddent yn rhannu'r farn na fyddai'r dull yn arwain at newidiadau sylweddol. Cadarnhaodd NL fod trafodaethau wedi digwydd, ac y byddai Undebau Llafur yn rhan o'r camau nesaf gydag unrhyw anghysondebau'n cael eu datrys drwy weithio mewn partneriaeth.
    - Cefnogodd LH gael arweinydd ochr y staff ar y gweithgor a chadarnhaodd fod Undebau Llafur yn gweld y dull fel ffordd o wella llwybrau gyrfa.
- Tynnodd sylw at bwysigrwydd llwybrau gyrfa matrics, a nodi bod grwpiau proffesiynol yn aml yn gweithio ar draws ffiniau a bod teuluoedd swyddi yn adlewyrchu gweithio amlddisgyblaethol er mwyn osgoi datblygiad llinol.
- Pwysleisiodd bwysigrwydd cyfathrebu clir â'r holl staff a'r effaith gadarnhaol y gall y dull teuluoedd swyddi ei chael ar safoni rolau.

Diolchodd TR i RA am y diweddariad.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod gweithredu'r dull teulu swyddi yn mynd rhagddo yn unol â'r Strategaeth Pobl a'r ymrwymiadau yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

| **PODC 6/ 2025.10.14** | **Diweddariad ar yr Ymrwymiad yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) (Profiad Gweithwyr)** |
|---|---|

Rhoddodd RA ddiweddariad ar yr ymrwymiad yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig i greu profiad eithriadol i weithwyr. Nododd bod hyn yn cyd-fynd â'r Strategaeth Pobl a'r gwaith ar y teuluoedd swyddi. Eglurodd bod yr ymrwymiad yn cynnwys datblygu cynllun ar gyfer profiad gweithwyr a oedd yn cefnogi llesiant, gweithio hyblyg, a datblygiad gyrfa, gyda'r nod o wneud Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyflogwr o ddewis.

Nododd bod y cynllun yn ymgorffori gwaith blaenorol o Strategaeth Pobl 2020-2030 i strategaeth 2035 wedi'i hadnewyddu, gan bwysleisio creu amgylchedd gwaith gwych i gadw, ysgogi a denu talent.

Rhoddodd RA drosolwg o gamau datblygu'r cynllun:

- Cyfnod 1 (Yn mynd rhagddo ar hyn o bryd): Canolbwyntio ar gasglu data, gwaith darganfod, dadansoddi bylchau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i asesu profiad presennol y gweithwyr a nodi bylchau.
- Cyfnod 2 (Dechrau 2026): Yn cynnwys dylunio'r cynllun, ei gysylltu â'r Strategaeth Pobl, meincnodi, a datblygu mentrau i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd.
- Cyfnod 3 (o Ebrill 2026 ymlaen): Yn cwmpasu gweithredu ac ymgorffori mentrau, hyrwyddo gweithio hyblyg, gwella mynediad cyfartal, lliniaru risgiau gweithio ystwyth, a blaenoriaethu llesiant staff
- Gwerthuso: Mesur effeithiolrwydd ac olrhain canlyniadau.

Nododd RA y risgiau a nodwyd yn y gwaith hwn, megis bylchau mewn data, cyfyngiadau o ran capasiti a chyllid, a sicrhau bod mentrau'n apelio at bob grŵp o weithwyr.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Mynegi diddordeb yng nghanlyniadau'r gwaith diagnostig ar gylch bywyd gweithwyr a phwysleisio pwysigrwydd cael llinell sylfaen glir i nodi bylchau ac olrhain cynnydd.
- Holi sut y byddai canfyddiadau'r gwaith diagnostig ar gylch bywyd gweithwyr yn llywio'r broses o greu cynllun. Esboniodd RA y byddai'r gwaith diagnostig yn diffinio'r hyn sydd angen ei wneud ar bob cam o gylchred oes gweithiwr, ac y byddai cynllun gweithredu'r Strategaeth Pobl yn nodi ymrwymiadau ac yn caniatáu i'r Pwyllgor gymryd sicrwydd ynghylch cynnydd.
- Nododd yr her o fesur cynnydd a llwyddiannau, ac awgrymwyd y dylid cynnwys mesurau sy'n edrych tuag at y dyfodol i helpu staff i fyfyrio ar gynnydd dros amser.

Diolchodd TR i RA am y diweddariad.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** o ddatblygiad ein Cynllun Profiad Gweithwyr sy'n nodi sut y byddwn yn creu profiad gweithwyr sy'n blaenoriaethu llesiant, gweithio hyblyg, cyfleoedd ar gyfer datblygiad gyrfa ac yn gwneud Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyflogwr o ddewis.

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

| | |
|---|---|
| **PODC 7/ 2025.10.14** | **Adroddiad Blynyddol Mwy na Geiriau** |

Cyflwynodd RA yr Adroddiad Blynyddol Mwy na Geiriau i gael sicrwydd. Eglurodd bod yr adroddiad yn manylu ar gynnydd cynllunio'r iaith Gymraeg a phrosesau'r gweithlu, a thynnodd sylw at heriau wrth recriwtio a chadw siaradwyr Cymraeg. Nododd ei bod yn ofynnol i'r sefydliad gyflwyno'r adroddiad hwn i Lywodraeth Cymru yn flynyddol.

Mynegodd TR foddhad â'r camau gweithredu a restrwyd a diwylliant dwyieithog y sefydliad.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at yr angen i ganolbwyntio ar recriwtio yng ngogledd Cymru ac i herio rhagdybiaethau ynghylch pa swyddi y gallai siaradwyr Cymraeg eu llenwi, gan bwysleisio nifer y siaradwyr Cymraeg ar bob lefel cyflogaeth yn y rhanbarth hwnnw.

Nododd y Pwyllgor sefydlu Tîm y Gymraeg a'i effaith, a phwysleisiodd werth cael staff ymroddedig ar gyfer gwaith ar y Gymraeg.

Croesawodd SJ yr adborth cadarnhaol, a chadarnhaodd fod y sefydliad yn gwneud cynnydd da tuag at gefnogi staff presennol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Diolchodd TR i RA ac SJ am yr adroddiad.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** o'r adroddiad cynnydd blynyddol ar y fframwaith strategol Mwy na Geiriau.

**Y Gweithlu a Chynllunio'r Gweithlu**

| | |
|---|---|
| **PODC 8/2025.10.14** | **Diweddariad ar Absenoldebau Salwch (yn cynnwys gwelliannau i ansawdd data)** |

Rhoddodd KF yr wybodaeth ddiweddaraf am ddata absenoldebau salwch yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf. Nododd KF fod y gwaith o

UNCONFIRMED

gwblhau'r Archwiliad Mewnol ar reoli absenoldebau salwch wedi'i ohirio, a bod hynny wedi achosi amrywiad yn y diweddariad a gyflwynwyd. Dywedodd bod trafodaeth fanwl wedi'i threfnu ar gyfer mis Chwefror 2026 ar ôl i'r adroddiad archwilio gael ei gwblhau a phan fyddai'r canfyddiadau ar gael i'r Pwyllgor.

Nododd RA welliannau o ran y defnydd o gategorïau absenoldeb "anhysbys" ac "arall", ond bod cyfraddau absenoldeb salwch cyffredinol wedi aros yn gyson ers mis Gorffennaf.

Tynnodd NL sylw at y ffaith bod y Tîm Gweithredol wedi trafod manylion penodol ynghylch cofnodi absenoldebau, gyda ffocws ar heriau o ran rhesymau personol neu sensitif, a phwysleisiodd bwysigrwydd rheolwyr llinell wrth gefnogi llesiant staff.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Trafod defnyddio arbenigedd mewnol a mentrau ar draws y system i fynd i'r afael â salwch hirdymor (a oedd yn cynnwys straen, gorbryder, a phroblemau iechyd meddwl), gyda chydweithrediad parhaus â phartneriaid allanol.
- Sylwi bod y tri chategori absenoldeb uchaf yn eang, a oedd yn ei gwneud hi'n anoddach nodi achosion penodol, a chefnogodd ymdrechion parhaus i wella ansawdd a dealltwriaeth data.
- Gofynnodd am sicrwydd y byddai'r archwiliad sydd ar ddod yn cwmpasu cysondeb mewn adolygiadau salwch hirdymor a dychwelyd i'r gwaith yn raddol, gan ddyfynnu enghreifftiau o gymhwyso anghyson. Cadarnhaodd KF y byddai'r archwiliad yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn. Nododd y gefnogaeth a ddarparwyd gan Gynghorwyr Pobl a Datblygu Sefydliadol, gyda mewnbwn ychwanegol gan arweinwyr iechyd galwedigaethol, llesiant, ac adnoddau allanol yn ôl yr angen.

Diolchodd TR i RA a KF am y diweddariad.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch absenoldeb oherwydd salwch a rheoli absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y cyfnod 1 Medi 2024 i 31 Awst 2025.

| **PODC 9/2025.10.14** | **Argymhellion Archwilio - Cynllunio'r Gweithlu** |
|---|---|

Rhoddodd IB drosolwg o'r cais gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol (ACGC) i adolygu adroddiad Archwilio Cymru ar yr Adolygiad o Drefniadau Cynllunio'r Gweithlu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda ffocws ar gam gweithredu 599. Nododd LB fod yr ACGC wedi ceisio sicrwydd na fyddai estyniad pellach y tu hwnt i Ragfyr 2025.

Nododd IB fod yr argymhelliad yn galw am ddull ar y cyd (gyda NL) i egluro gofynion y gweithlu yn y dyfodol trwy ddefnyddio data, a bod datgysylltiad rhwng y diweddariad a'r gofyniad gweithredu.

Tynnodd IB sylw at y ffaith bod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru lefel dda o ddata gweithlu ond bod bylchau yn yr wybodaeth. Nododd hefyd gynnydd sylweddol gan NL a'r tîm tuag at gasglu manylion y gweithlu a nodi anghenion y dyfodol. Awgrymwyd y dylai IB a NL sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i sicrhau bod yr ymateb yn bodloni gofynion olrhain yr archwiliad, a fyddai'n cynnwys modelu data'r gweithlu a ffocws ar fylchau sgiliau.
**Cam Gweithredu: NL/IB**

UNCONFIRMED

Nododd NL yr anelir at gwblhau'r gwaith yn y maes hwn erbyn y dyddiadau cau y cytunwyd arnynt ac y byddai tystiolaeth o hyn yn cael ei darparu, ond y dylid hefyd nodi yn y diweddariad nesaf y byddai'r maes gwaith hwn yn barhaus.

Tynnodd KF sylw at yr angen i gynnwys diweddariad ar waith cydweithwyr Addysg a Gwella Iechyd Cymru i sefydlu swyddi gwag o fewn y system ESR.

Diolchodd TR i IB am y diweddariad.

**Ystyriodd** y Pwyllgor y cynnydd o ran gweithredu cam gweithredu 599, a oedd yn deillio o adroddiad Archwilio Cymru i'r Adolygiad o Drefniadau Cynllunio'r Gweithlu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

| **PODC 10/2025.10.14** | **Cynllun Gweithredu Diwylliant** |
|---|---|

Rhoddodd RA yr wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu Diwylliant. Nododd RA nad oedd canlyniadau'r Arolwg Pwls Diwylliant diweddar a gynhaliwyd yn gynharach yn 2025 ar gael eto i'w trafod yn llawn, gan fod angen eu rhannu a'u trafod gyda'r tîm Gweithredol o hyd. Nodwyd y byddai'r canlyniadau llawn yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol.

Tynnodd RA sylw at y ffaith bod cyfradd ymateb yr arolwg wedi cynyddu'n sylweddol i 39.5% (852 o ymatebion) o'i gymharu â 423 yn yr arolwg blaenorol. Roedd yr arolwg yn cynnwys 13 o gwestiynau: Pum cwestiwn ar gynnydd tuag at y diwylliant adeiladol delfrydol, pum cwestiwn ar gynnydd i symud i ffwrdd o ddiwylliant amddiffynnol 2023, a tri chwestiwn annibynnol ar eglurder rôl, cysondeb mewn negeseuon, a ffocws ar gwsmeriaid.

Nododd TR bwysigrwydd y canlyniadau sydd ar ddod ar gyfer gwaith parhaus y Pwyllgor a mynegodd ddisgwyliad am y mewnwelediadau y byddai'r arolwg yn eu darparu.

Cydnabu'r Pwyllgor fod y diweddariad ar y Cynllun Gweithredu Diwylliant yn yr arfaeth ac y byddai'n cael ei ailystyried yn y cyfarfod nesaf ar ôl i ganlyniadau'r arolwg gael eu hadolygu a'u trafod yn llawn.

| **PODC 11/2025.10.14** | **Diweddariad ar Reoli Newid Sefydliadol** |
|---|---|

Rhoddodd NL ddiweddariad ar Reoli Newid Sefydliadol, a chynnwys cyfeiriad at ddogfennau a rannwyd gyda'r Pwyllgor a chydweithwyr Undebau Llafur yn y Fforwm Partneriaeth Lleol. Roedd y diweddariad yn cynnwys crynodeb o brosiectau newid cyfredol, wedi'u cau, wedi'u cynllunio, ac sydd ar y gweill ar draws y sefydliad. Rhoddwyd y trosolwg mewn ymateb i drafodaethau blaenorol yn y Bwrdd, a'i nod oedd dangos ehangder y newid sefydliadol y tu hwnt i brosiectau mawr (Haen 1).

Roedd yr adroddiad yn cwmpasu amrywiaeth o weithgareddau, a oedd yn cynnwys gwelliannau/newidiadau i wasanaethau, newidiadau i ganolfannau ac ailstrwythuro. Roedd pob prosiect yn nodi'r ymrwymiadau IMTP perthnasol, aliniad ag adnoddau a chapasiti (yn enwedig cymorth rheoli prosiectau), ac yn nodi arweinwyr newid ac arweinwyr undebau llafur (gyda rhai arweinwyr i'w cadarnhau eto).

Rhoddwyd manylion am nifer y staff yr effeithir arnynt, dyddiadau dechrau a gorffen pob newid, a haen y newid er mwyn tryloywder.

UNCONFIRMED

Nododd NL fod cyfran fawr o’r gweithgarwch newid yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, a oedd yn adlewyrchu maint a chwmpas y maes hwnnw.

Eglurodd NL wrth y Pwyllgor fod prosiectau a farciwyd fel Haen 1 yn dynodi'r newidiadau mwyaf a mwyaf arwyddocaol.

Diolchodd TR i NL am y diweddariad.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** o ran rheoli newid o fewn y sefydliad.

**Llywodraethu ac Atebolrwydd**

| **PODC 12/2025.10.14** | **Diweddariad ar Bolisïau Corfforaethol Chwemisol** |
|---|---|

Cyflwynodd LB fanylion y Diweddariad ar Bolisïau Corfforaethol Chwemisol safonol i hysbysu'r Pwyllgor am statws presennol polisïau a chydymffurfiaeth yn Iechyd Cyhoeddus Cymru o fewn eu cylch gwaith. Dywedodd bod chwe hen bolisi ar y gofrestr, a oedd i fod i ddod gerbron y pwyllgor i'w hadolygu yng nghyfarfod mis Ionawr.

Nododd LB fod cais wedi'i wneud i ddileu un polisi o'r gofrestr a'i archifo gan ei fod wedi'i ddisodli.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cymryd **sicrwydd** ynghylch y blaenoriaethu a’r cynnydd sy’n cael ei wneud i adolygu polisïau, gweithdrefnau, a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.
- **Cymeradwyo’r** cais i archifo’r Weithdrefn Ymddeol, a nodi ei bod wedi'i disodli gan Bolisi Pensiynau Hyblyg Cymru Gyfan.

| **PODC 13/2025.10.14** | **Polisïau i'w Cymeradwyo** |
|---|---|

Cyflwynodd LD bolisi Gwrth-Aflonyddu Rhywiol Cymru Gyfan i'w gymeradwyo. Nododd bod y polisi wedi'i ddatblygu yn unol â’r Ddeddf Diogelu Gweithwyr, ac wedi'i gydlynu drwy Rwydwaith Pobl Cymru Gyfan. Nodwyd bod y polisi wedi bod yn destun ymgynghoriad ac na dderbyniwyd dim sylwadau, a’i fod hefyd wedi cael ei adolygu gan y grwpiau angenrheidiol.

Nododd y Pwyllgor fod yr Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb (Asesiad EG) oedd ynghlwm gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) nid Iechyd Cyhoeddus Cymru, a chwestiynodd a oedd Asesiad EG penodol i Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodoli. Eglurodd LD fod polisïau Cymru Gyfan fel arfer yn defnyddio un Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb, a chytunodd i wirio a sicrhau aliniad ag asesiad Iechyd Cyhoeddus Cymru.
**Cam Gweithredu: LD**

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Ystyried** y polisi a'r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb.
- **Cymeradwyo** polisi Gwrth-aflonyddu Rhywiol Cymru Gyfan.
- **Nodi** bod y Tîm Arweinyddiaeth wedi ystyried y polisi ac wedi rhoi cymeradwyaeth drwy e-bost.

**Er Gwybodaeth**

UNCONFIRMED

| | |
|---|---|
| **PODC 14/2025.10.14** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **PODC 14.1/2025.10.14** | **Adroddiad Perfformiad a Mewnwelediadau - Dyfyniad yn ymwneud â'r Gweithlu** |
| **Nododd** y Pwyllgor ddyfyniad o'r adroddiad Mewnwelediadau yn ymwneud â'r gweithlu er gwybodaeth. | |
| **PODC 14.2/ 2025.10.14** | **Diweddariad ar y Traciwr Argymhellion Archwilio** |
| Nododd LB y dyfyniad o'r adroddiad Traciwr Argymhellion Archwilio a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2025.<br><br>Nododd LB fod dau Archwiliad Mewnol wedi'u cwblhau a'u hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ym mis Medi a oedd yn berthnasol i waith y Pwyllgor:<br>• **Polisïau a Gweithdrefnau**<br>• **Codi Llais Heb Ofn** – Nid oedd yr Archwiliad Mewnol hwn wedi'i gynnwys yn y pecyn o ganlyniad i gamgymeriad. Nodwyd y byddai'n cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor y tu allan i'r cyfarfod. Nododd LB y byddai'r Adroddiad Blynyddol ar Godi Llais Heb Ofn yn cynnwys diweddariad ar y camau gweithredu hyn yn y cyfarfod nesaf. | |
| **PODC 14.3/ 2025.10.14** | **Cylch Gorchwyl y Fforwm Partneriaeth Lleol** |
| Cadarnhaodd NL fod Cylch Gorchwyl y Fforwm Partneriaeth Lleol wedi cael ei drafod a'i gymeradwyo gan aelodau'r Fforwm Partneriaeth Lleol, a'i fod wedi bod trwy'r prosesau cymeradwyo mewnol.<br><br>**Nododd** y Pwyllgor Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru'r Fforwm Partneriaeth Lleol. | |
| **PODC 14.4/ 2025.10.14** | **Amcanion Nyrsio a Bydwreigiaeth 2025-26** |
| Cytunodd y Pwyllgor i nodi'r Amcanion Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi'u diweddaru ar gyfer 2025-26 fel y'u cymeradwywyd gan y Tîm Arweinyddiaeth. | |
| **PODC 14.5/ 2025.10.14** | **Fforymau Gwaith Partneriaeth â'r Undebau Llafur - Diweddariad** |
| Adroddodd NL gynnydd rhagorol wrth ddatblygu gweithio mewn partneriaeth. Tynnodd sylw at ddigwyddiad wyneb yn wyneb diweddar gyda chydweithwyr o'r Undebau Llafur yn canolbwyntio ar gyfleoedd a blaenoriaethau, a chyfarfodydd Fforwm Partneriaeth Lleol. Adleisiodd LH y cyfeiriad cadarnhaol a mynegodd obaith am barhau i gydweithio.<br><br>Nodwyd y diweddariad er gwybodaeth. | |
| **PODC 14.6/ 2025.10.14** | **Cynllun Gwaith y Pwyllgor** |
| Cyflwynodd LB gynllun gwaith safonol y Pwyllgor, a oedd yn cynnwys newidiadau a amlygwyd mewn coch (gohiriwyd dau adroddiad tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor).<br><br>Nodwyd y cynllun gwaith er gwybodaeth. | |

**Rhan B**

| **PODC 15/2025.10.14** | **Adroddiad Sicrwydd Chwemisol Perfformiad a Gwella'r GIG** |
|---|---|

Cyflwynodd RW Adroddiad Sicrwydd Chwemisol Perfformiad a Gwella'r GIG ac amlinellodd ei bwrpas o roi sicrwydd i'r Pwyllgor ar ofynion llywodraethu Pobl ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) a'r iaith Gymraeg, fel y nodir yn yr amserlen sicrwydd.

Tynnodd RW sylw at bwyntiau allweddol o'r adroddiad:

- Nodwyd bod trefniadau ar waith i gyflawni dyletswyddau statudol ac ymgorffori arferion cynhwysol ar draws pob maes gwaith.
- Esboniwyd mai un o'r blaenoriaethau dros y chwe mis blaenorol oedd glanhau data'r gweithlu, a oedd wedi arwain at welliannau sylweddol o ran ansawdd data. Rhannwyd data demograffig allweddol am y gweithlu o ddangosfyrddau Iechyd Cyhoeddus Cymru ac ESR yn rheolaidd gyda'r Uwch Dîm Arwain.
- Dangosodd yr adroddiad fod Perfformiad a Gwella'r GIG islaw cyfartaledd Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn rhai metrigau amrywiaeth. Nodwyd bod gwaith yn cael ei wneud i gynyddu cyfraddau cwblhau ar gyfer nodweddion gwarchodedig yn ESR, gyda ffocws ar gyfathrebu ynghylch pwysigrwydd cywirdeb data, defnyddio data, ac anhysbysrwydd, a'i gwneud hi'n haws i staff ddiweddaru eu manylion. Nodwyd y byddai'r arolwg staff sydd ar ddod yn rhoi rhagor o fewnwelediad i brofiad gweithwyr ac yn llywio cynllun gweithredu ar gyfer gwelliannau.
- Manylion ynghylch cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Nododd y Pwyllgor fod ffocws EDI yn bennaf ar y gweithlu, ac awgrymodd y gallai adroddiadau yn y dyfodol hefyd bwysleisio mesuriadau EDI pellach megis bylchau mewn gwasanaethau a darpariaeth. Cytunodd RW i ystyried yr adborth hwn ar gyfer adrodd yn y dyfodol.

Tynnodd NL sylw at y gwaith sylweddol gan RW a'i thîm i wella ansawdd data. Nododd fod y sefydliad bellach mewn sefyllfa gryfach o ran trefniadau llywodraethu ar gyfer EDI a'r iaith Gymraeg.

Diolchodd TR i RW am y diweddariad.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cymryd **sicrwydd** bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer prosesau cysylltiedig.
- Cymryd **sicrwydd** bod trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Cymryd **sicrwydd** bod trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Gymraeg
- Cymryd **sicrwydd** bod unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn cael eu rheoli'n briodol.

| **PODC 16/2025.10.14** | **Camau dod â'r cyfarfod i ben** |
|---|---|

Diolchodd TR i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.

| |
|---|
| Gofynnwyd i'r Pwyllgor e-bostio adborth ar y cyfarfod i Uned Fusnes y Bwrdd.<br><br>Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor: 20 Ionawr 2026. |
| Daeth y cyfarfod i ben am 12:15 |

UNCONFIRMED